Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# CO23035 Heol Trelái (Gwelliannau i'r Groesfan Sebra)

# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

# Mai 2024

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i uwchraddio'r groesfan sebra bresennol ar Heol Trelái i groesfan sebra ddyrchafedig ac i ymgymryd â gwelliannau eraill i'r droedffordd ar hyd y llwybr hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22/03/2024 a 12/04/2024.

## Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun.
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

## Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd 1 ymateb unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn a oedd yn erbyn y cynllun ac a oedd yn rhoi sylwadau ychwanegol.

## Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.

## Materion Penodol

Mae'r materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Dywedodd un sylw y byddai'n fwy diogel ac yn llai aflonyddgar i adleoli'r groesfan i ffwrdd o gyffordd Lôn Caerau. | Mae croesfan sebra bresennol yn y lleoliad hwn a gyflwynwyd i ddarparu ar gyfer y galw o ran cerddwyr yn croesi Heol Trelái o gwmpas cyffordd Lôn Caerau. Bydd dyrchafu'r groesfan arfaethedig yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Heol Trelái a fydd yn creu amgylchedd croesi mwy diogel i gerddwyr, ni fyddem yn ceisio adleoli'r groesfan i ffwrdd o'r gyffordd gan na fyddai yna gyfleuster croesi yn yr ardal hon. Mae'r groesfan hefyd yn |

| | |
|---|---|
| | hwyluso'r symudiadau dymunol gan ddisgyblion i'r ysgolion sydd ar Lôn Caerau (i'r gogledd a'r de). |
| Nododd un sylw y gallai'r arian hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer atgyweirio ceudyllau. | Bydd y pecyn arfaethedig o fesurau'n helpu i greu llwybrau cerdded diogel trwy arafu cerbydau a gosod croesfannau ffurfiol i gerddwyr. Bydd hyn yn annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol, gan gynyddu lefelau gweithgarwch a fydd yn cael manteision iechyd cadarnhaol. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio cyllid cyfalaf gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, ni ellir defnyddio'r cyllid hwn tuag at waith cynnal a chadw fel atgyweirio ceudyllau. |